OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 3048

# Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013

**Ymgynghori**

**9.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol ynghylch y cynllun drafft—

(a) Comisiynydd y Gymraeg (o fewn ystyr adran 2 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**));

(b) Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (o fewn ystyr adran 119 o Ddeddf 1998(**2**));

(c) cynghorau ysgol;

(d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(e) unrhyw sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol; ac

(f) unrhyw bersonau neu gyrff eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol.

(2) Yn achos y cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), dim ond y cyrff hynny sydd â buddiant yn ardal yr awdurdod lleol sy'n destun asesiad addysg cyfrwng Cymraeg y mae rhaid ymgynghori â hwy.

(3) Rhaid i'r awdurdod ymgynghori ynghylch y cynllun drafft am gyfnod heb fod yn llai nag wyth wythnos.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol gynnal yr ymgynghoriad drwy anfon drafft o'r cynllun at bob ymgynghorai gan wahodd sylwadau arno o fewn cyfnod a bennir gan yr awdurdod lleol.

(5) Caniateir bodloni'r gofyniad ym mharagraff (4) i anfon copi drafft o'r cynllun at bob ymgynghorai drwy anfon copïau dros e-bost.

(**1**) 2011 mccc 1.

(**2**) 1998 p.31, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 10(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 2 i Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158) a chan baragraff 30(a) a (b) o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006.